
# 14 Y SGUTHAN

## (*THE WOOD PIGEON*)




(a) 8. Cynhwyswyd sill ychwanegol yma drwy ganu mewn rhithm ♪♩♪ ar yr un nodyn.

(a) *8. An additional syllable was incorporated here by singing to ♪♩♪ rhythm on the same note.*

2. Am ddau lanc ifanc o'r plwy yma
Ryw noson aethant ffwrdd i hela;
Aeth un â'i wn a'r llall â'i gi.
Gael bod yn siŵr o ddal y pry.

3. Fe gododd un i fyny ei ben,
Fe welodd sguthan ar y pren:
"Wel, cydia di yng ngwar y ci
Rhag ofn (i)ddo fynd o fy ngafael i".

4. Wel, siarjo'r gwn wnaeth ar ôl hynny
A bacio'n ôl gael lle i 'nelu.
A'r llall yn crynu wrth fôn y pren
Rhag ofn i'r siots fynd oddeutu ei ben.

5. Pan aeth yr ergyd gyntaf allan
Mi oedd 'na dwrw megis taran,
A rhedeg wnaent i'r lle a'r fan
Rhag ofn i'r ci gael mwy na'i ran.